

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Delfryn House a Delfryn Lodge

Dyddiad yr arolygiad: 4, 5 a 6 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 5 Hydref 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN digidol 978-1-80364-916-0

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd yn Delfryn House a Delfryn Lodge ar 4, 5 a 6 Gorffennaf 2022.

Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Delfryn House - 28 o welyau un rhywedd (gwrywaidd) yn darparu gwasanaethau adsefydlu dan glo
- Delfryn Lodge - 24 o welyau un rhywedd (benywaidd) yn darparu gwasanaethau adsefydlu dan glo.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri arolygydd AGIC, pedwar adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl), ac un adolygydd profiad cleifion. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Ar adeg yr arolygiad, roedd yr ysbyty'n cael ei reoli gan Cygnet Health Care.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac ag urddas a pharch. Roedd gan bob claf ei raglen ofal ei hun a oedd yn adlewyrchu ei anghenion a'i risgiau unigol. Gallai'r cleifion ymgysylltu a rhoi adborth i'r staff ar y ddarpariaeth gofal yn yr ysbyty mewn nifer o ffyrdd. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r cleifion a oedd yn darparu gwybodaeth a chymorth ar unrhyw faterion a allai fod ganddynt ynghylch eu gofal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ystyried gosod paneli arsylwi ar bob drws ystafell wely yn yr ysbyty er mwyn lleihau'r effaith ar gleifion gyda'r nos
- Rhaid sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn Delfryn Lodge
- Rhaid cynnal gwiriadau ac arsylwadau iechyd corfforol yn rheolaidd a'u cofnodi yn y ffeiliau iechyd corfforol ar gyfer cleifion.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd penodi cynrychiolwyr cleifion yn fenter gadarnhaol a lwyddodd i hyrwyddo ymgysylltiad cleifion a sicrhau bod llais y cleifion yn cael ei glywed.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd cynlluniau gofal y cleifion yn cael eu cynnal i safon dda. Roedd protocolau addas ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd gwiriadau rheolaidd o'r offer adfywio a'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu cynnal. Roedd y dogfennau statudol a welsom yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithiol yn briodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ystyried p'un a yw'n casglu gwybodaeth yn y ffordd symlaf i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn gallu cael mynediad at ddogfennaeth yn gyflym wrth adolygu gofal a thriniaeth i gleifion
- Rhaid cwblhau'r rhestr wirio tymheredd ystafell yn ôl yr angen yn yr ystafell driniaeth yn Delfryn Lodge

- Mae angen gwirio'r holl oleuadau ar y to yn yr ysbyty i sicrhau eu bod yn gweithio, a'u glanhau i gael gwared ar y baw a'r pryfed sy'n cronni.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel ac roedd Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn dda.
- Roedd tystiolaeth o oruchwyliaeth dda ar waith gan dîm gweinyddol y Ddeddf Iechyd Meddwl i fonitro cydymffurfedd â chanllawiau cenedlaethol ac i adolygu terfynau amser sydd i ddod i sicrhau bod cyfnodau cadw'n parhau i fod yn gyfreithlon.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiaduron AGIC adborth cadarnhaol ynglŷn â gweithio yn yr ysbyty. Roedd trefniadau llywodraethu sefydledig ar waith i ddarparu goruchwyliaeth o faterion clinigol a gweithredol. Roedd prosesau recriwtio yn cael eu cynnal mewn dull agored a theg ac archwiliadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn dechrau mewn cyflogaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhaid i'r gwasanaeth ymgysylltu â staff i sicrhau'n well nad yw Delfryn House a Delfryn Lodge yn cael eu hystyried fel endidau ar wahân, ond yn hytrach eu bod yn gweithredu fel un ysbyty.
- Dylai'r gwasanaeth adolygu ei raglen sefydlu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn cael y wybodaeth ofynnol a chymorth digonol wrth ddechrau yn eu rôl.
- Rhaid parhau gyda'r ymdrechion i recriwtio mwy o staff parhaol er mwyn lleihau'r teimlad ymhlith rhai staff nad oes ganddyn nhw ddigon o amser i roi'r gofal sydd ei angen arnynt i gleifion.

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pedwar claf a gweld tystiolaeth bod y cleifion yn cael asesiadau corfforol priodol yn ogystal ag asesiadau o'u gofal iechyd meddwl wrth gael eu derbyn. Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal iechyd corfforol a oedd yn dogfennu gwiriadau megis sgrinio iechyd. Fodd bynnag, canfuom dystiolaeth nad oedd rhai arsylwadau misol wedi'u cofnodi mewn ffeiliau iechyd corfforol a oedd yn cael eu storio yn yr ystafell driniaeth yn Delfryn Lodge.

Roedd ystod o gyfleusterau therapi ar gael i'r cleifion yn yr ysbyty i gefnogi a chynnal eu hiechyd a'u llesiant, gan gynnwys offer campfa, salon gwallt a chegin therapi galwedigaethol. Roedd ystafell TG ar gael ond dywedwyd wrthym nad oedd yn cael ei defnyddio'n rheolaidd. Dylai'r gwasanaeth ystyried sut i ymgysylltu cleifion yn well â'r cyfleusterau TG.

Roedd lolfa gymunol ar gael yn Delfryn Lodge ac yn Delfryn House. Roedd manau awyr agored mawr o fewn tir yr ysbyty a gwelsom y cleifion yn defnyddio'r manau hyn yn gyson yn ystod y dydd. Roedd gan staff fynediad at fws mini i hwyluso gweithgareddau yn y gymuned i gleifion a oedd wedi'u hawdurdodi i adael yr ysbyty.

Gallai cleifion smygu y tu allan i bob ward. Fe'n hysbyswyd y byddai'r ysbyty'n dod yn ysbyty di-fwg o fis Hydref 2022. Mae cleifion wedi cael cymorth rhoi'r gorau i smygu cyn i'r newid ddod i rym.

Urddas a pharch

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn trin y cleifion yn briodol gydag urddas a pharch. Roedd y staff yn cymryd amser i siarad â chleifion i ddeall eu hanghenion neu unrhyw bryderon a godwyd gan y cleifion.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely en suite ei hun, a oedd yn darparu safon dda o breifatrwydd ac urddas. Roedd y cleifion yn gallu storio a rhoi eitemau personol yn eu hystafelloedd megis lluniau a phosteri. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom enghreifftiau o staff yn parchu preifatrwydd cleifion trwy guro ar eu drws cyn mynd i mewn. Gallai cleifion gloi eu hystafelloedd, ond gallai staff ddatgloi'r cloeon pe bai angen.

Gwelsom fod gan ddrysau ystafelloedd gwely yn Delfryn Lodge banel arsylwi a oedd yn galluogi staff i arsylwi heb orfod agor y drws. Fodd bynnag, nid oedd gan bob drws yn Delfryn House banel arsylwi, a oedd yn golygu y gallai cleifion gael eu haflonyddu wrth arsylwi dro ar ôl tro, yn enwedig gyda'r nos.

Roedd trefniadau ymweld addas ar waith i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn yr ysbyty. Roedd gan gleifion fynediad at eu ffôn symudol eu hunain lle'r oedd hynny'n briodol, ond roedd ffôn ar gael ar bob ward i'r cleifion ei ddefnyddio pe bai angen.

Gwybodaeth i gleifion a'u cydsyniad

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig wrth gael eu derbyn a oedd yn cynnwys canllawiau ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a sut i wneud cwyn. Roedd gwybodaeth arall, megis sut y gallai cleifion gysylltu â gwasanaethau eiriolaeth a chael mynediad iddynt, wedi'i harddangos yn y derbynfeydd y tu allan i'r ddwy ward. Nid yw'r manau hyn yn hawdd eu cyrraedd i gleifion ac efallai y bydd y gwasanaeth am ystyried arddangos yr wybodaeth hon ym mhob ward.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ynghylch rhoi'r gorau i smygu, defnydd o gyffuriau ac alcohol a bwyta'n iach yn cael ei harddangos yn Delfryn House. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth o'r fath ar gael i gleifion yn Delfryn Lodge. Gwelsom hefyd fod y manylion cyswllt ar gyfer AGIC ar bosteri ar draws yr ysbyty yn anghywir a bod angen eu diweddarau.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn Saesneg yn unig gan fwyaf. Fodd bynnag, roedd arwyddion yn cael eu harddangos a oedd yn hysbysu cleifion y gellir sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ar gais.

Roedd byrddau cipolwg ar statws cleifion wedi'u lleoli yn y swyddfeydd nyrsio ar bob ward. Roedd gorchuddion gan y byrddau a oedd yn helpu i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y staff yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â chleifion trwy gydol yr arolygiad. Roedd y cleifion yn ymddangos yn hyderus wrth fynd at staff i gymryd rhan mewn trafodaethau. Siaradodd y cleifion y siaradwyd â nhw yn gadarnhaol am eu rhyngweithiadau â'r staff yn ystod eu hamser yn yr ysbyty.

Mae'r ysbyty wedi mabwysiadu egwyddorion y model 'Safewards'. Roedd bwrdd lluniau o bwy yw pwy er mwyn i'r cleifion adnabod y staff ar bob ward, a gwybodaeth am gyfleoedd swyddi therapiwtig oedd ar gael i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod y rhain yn cael eu harddangos mewn manau nad oedd yn hawdd eu cyrraedd i gleifion, a dylai'r gwasanaeth ystyried eu symud i gynyddu eu heffaith.

Roedd cyfarfodydd cynllunio dyddiol yn cael eu cynnal bob bore i drafod gweithgareddau sydd i ddod o fewn yr ysbyty a'r gymuned, a gwybodaeth berthnasol arall, megis tribiwnlysoedd ac apwyntiadau meddygol. Roedd cynrychiolwyr cleifion wedi'u penodi i fod yn bwynt cyswllt i'r cleifion eraill siarad â nhw am unrhyw broblemau a allai fod ganddynt yr oeddem yn eu cydnabod fel arfer da.

Cynllunio a darparu gofal

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cynlluniau gofal pedwar claf. Gwelsom fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a bod gan bob claf ei raglen ofal ei hun a oedd yn adlewyrchu anghenion a risgiau'r cleifion unigol. Roedd hefyd yn amlwg bod cleifion wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau gofal. Mae rhagor o ganfyddiadau ar y cynlluniau gofal i'w gweld yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Roedd cyfarfod trosglwyddo yn cael ei gynnal bob bore yn ystod yr wythnos er mwyn i'r staff nysio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm aml-ddisgyblaethol am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd y diwrnod cynt. Gwnaethom fynychu cyfarfod trosglwyddo yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r cleifion yr oeddent yn gofalu amdanynt, a bod trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn oedd orau i'r claf unigol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion pump unigolyn a oedd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Roedd y dogfennau cyfreithiol a adolygwyd gennym yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl Cymru (2016) (y Cod).

Roedd gan yr ysbyty bolisiâu ar waith i helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu. Gwelsom fod rhai cleifion yn yr ysbyty wedi hysbysu'r staff bod eu hunaniaeth o ran rhywedd bellach yn wahanol i'r rhyw a neilltuwyd iddynt ar enedigaeth, a gwelsom y staff yn cyfeirio at y cleifion gan ddefnyddio eu rhagenwau dewisol.

Dywedwyd wrthym fod gan bob claf fynediad at eiriolwr iechyd meddwl sy'n ymweld â'r ysbyty unwaith yr wythnos i ddarparu gwybodaeth a chymorth i gleifion ar unrhyw broblemau a allai fod ganddynt ynghylch eu gofal.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom dystiolaeth gadarn y gallai'r cleifion ymgysylltu a rhoi adborth anffurfiol i'r staff ar y ddarpariaeth gofal yn yr ysbyty mewn nifer o ffyrdd. Yn ogystal â

chyfarfodydd boreol dyddiol, roedd cyfarfodydd cymunedol wythnosol a chyfarfodydd cyngor cleifion misol yn cael eu cynnal i gleifion drafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon a allai fod ganddynt. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn a oedd yn dangos bod y staff yn hysbysu'r cleifion am y camau a gymerwyd mewn ymateb i faterion a godwyd.

Roedd bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos yn Delfryn House i hysbysu cleifion am newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi nad oedd bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos yn yr un modd yn Delfryn Lodge.

Dywedwyd wrthym fod arolygon blynyddol yn cael eu dosbarthu i gleifion a'u perthnasau / gofalwyr i helpu i nodi unrhyw welliannau hefyd.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd bod gan y gwasanaeth brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau i helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty. Roedd mynedfeydd yr ysbyty yn hygyrch i bawb ac roeddent wedi'u diogelu bob amser trwy gydol yr arolygiad i atal mynediad heb awdurdod.

Rhannwyd y wardiau dros ddau lawr ac mae lifftiau ar gael i helpu pobl sydd ag anawsterau symudedd. Roedd pob ward yn darparu amgylchedd glân a chyfforddus i gleifion a gwnaethom nodi bod gwaith wedi'i wneud i adnewyddu'r carpedi ym mhrif goridorau pob ward ers ein hymweliad diwethaf. Roedd gwaith cynnal a chadw pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wella'r amgylchedd yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys adnewyddu'r ystafell synhwyrdd yn Delfryn Lodge. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhywfaint o ddifrod i'r cownter yn ystafell fwyta Delfryn Lodge, ac nid oedd rhai goleuadau ar y to'n gweithio, er enghraifft yn y gegin therapi galwedigaethol. Roedd y goleuadau hefyd wedi cronni baw a phryfed ac roedd angen eu glanhau.

Roedd ystod o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar gael i'r staff. Roedd archwiliadau iechyd a diogelwch misol yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno i'r tîm iechyd a diogelwch canolog yn Cygnet Health Care er mwyn iddynt allu monitro cydymffurfedd.

Roedd asesiadau risg cyfredol ar gyfer pwyntiau clymu ar waith ac roedd nifer o dorwyr clymiadau wedi'u lleoli ar draws yr ysbyty i'w defnyddio pe bai argyfwng hunan-niweidio.

Gwelsom dystiolaeth o wiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar offer dadebru ac achosion brys a gedwir ar bob ward. Roedd y staff wedi nodi pryd y gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod yr offer ar gael ac yn gyfredol. Fodd bynnag, canfuom rai bylchau yn y rhestr wirio i fonitro tymheredd yr ystafell yn yr ystafell driniaeth lle mae'r meddyginiaeth frys yn cael ei storio yn Delfryn Lodge.

Roedd manau galw nyrsys o amgylch yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen. Roedd staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe bai angen.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd ystod o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn manylu ar y gweithdrefnau rheoli heintiau amrywiol i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi'u cwblhau i wirio glanweithdra'r amgylchedd a monitro cydymffurfedd â gweithdrefnau'r ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r staff nyrsio y siaradwyd â nhw'n ymwybodol o ganlyniadau archwiliadau o'r fath. Byddai'n fuddiol cyfathrebu canlyniadau archwiliadau megis archwiliadau hylendid dwylo i sicrhau bod staff yn gwybod p'un a ydynt yn bodloni safonau atal a rheoli heintiau disgwylidig.

Roedd amgylchedd y ddwy ward a'r ysbyty ehangach yn lân a thaclus. Roedd y dodrefn a'r ffitiadau'n briodol ar gyfer y grŵp cleifion ac mewn cyflwr da ar wahân i rai cadeiriau yn lolfeydd cymunol y ddwy ward. Roedd y defnydd ar freichiau'r cadeiriau wedi treulio ac mae'n rhaid ei newid gan nad oes modd ei lanhau'n effeithiol yn eu cyflwr presennol.

Y rheolwyr clinigol ar gyfer pob ward oedd yr arweinwyr atal a rheoli heintiau dynodedig. Gwelsom gyfradd gydymffurfio uchel ymhlith staff clinigol yr ysbyty ar gyfer hyfforddiant gorfodol mewn atal a rheoli heintiau. Roedd y staff y siaradwyd â nhw'n ymddangos yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau yn yr ysbyty.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i helpu i reoli'r risg o drosglwyddo COVID-19 trwy'r ysbyty cyfan. Roedd amryw o orsafoedd hylif diheintio dwylo ar gael i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Roedd y staff yn gwisgo masgiau wyneb yn y wardiau, ac ni wnaeth y staff dynnu sylw at unrhyw broblemau ynghylch mynediad at gyfarpar diogelu personol arall yn ystod ein trafodaethau. Rhaid i ymwelwyr ddychwelyd prawf llif unffordd negyddol cyn cael mynediad.

Maeth

Gwelsom fod anghenion deietegol cleifion wedi'u hasesu wrth eu derbyn gan ddefnyddio'r Offeryn Sgrinio Diffyg Maethiad Cyffredinol. Roedd cynlluniau gofal wedi'u rhoi ar waith i reoli anghenion deietegol penodol lle bo angen. Mae pob claf yn cael gwiriadau rheoli pwysau parhaus yn ystod eu harhosiad.

Roedd cyfleusterau addas ar gael i'r cleifion gael diodydd poeth ac oer a gwelsom gleifion yn cael mynediad at y rhain drwy gydol yr arolygiad. Mae ceginau â staff wedi'u lleoli ar y safle i ddarparu amrywiaeth o brydau bwyd i gleifion ar bob ward trwy gydol y dydd. Mae'r cleifion yn cael yr un dewis o brydau ar bob ward. Mae cod lliw ar y fwydlen i helpu cleifion i nodi opsiynau iachach. Gwelsom fod y dewisiadau bwydlen presennol ar gyfer Delfryn Lodge yn cael eu harddangos yn yr

ystafell fwyta, ond nid oedd y dewisiadau bwydlen yn cael eu harddangos yn Delfryn House.

Mae'r cleifion yn gallu rhoi adborth ar eu hawgrymiadau a'u barnau i aelodau'r tîm arlwyo am y bwyd yn yr ysbyty yn ystod eu cyfarfodydd cymunedol wythnosol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu trefniadau clinig yr ysbyty a chanfod bod gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel ar bob ward. Roedd yr ystafelloedd clinig yn lân ac yn daclus ac yn drefnus. Roedd oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu gwneud yn gywir o dymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a gynghorir gan y gwneuthurwr.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n debygol o gael eu camddefnyddio yn ddiogel. Roedd cyffuriau'n cael eu storio'n ddiogel, ac roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y stoc yn cael ei gyfrifo wrth ei weinyddu a bod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal.

Roedd polisiâu perthnasol, megis rheoli meddyginiaethau a thawelu'n gyflym, yn gyfredol ac ar gael i staff ym mhob ystafell glinig. Gwelsom ddiwylliant cadarnhaol o gefnogi ac annog cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros gymryd meddyginiaeth a ragnodwyd iddynt.

Gwelsom sampl o siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth a gwelwyd eu bod yn cael eu cynnal i safon dda ar y ddwy ward. Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu llofnodi a'u dyddio yn rheolaidd pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, ac roedd rheswm yn cael ei gofnodi pan na roddwyd meddyginiaeth. Roedd yr holl dystysgrifau cydsynio i driniaeth berthnasol yn cael eu storio ochr yn ochr â'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod archwiliadau rheolaidd o'r siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn fewnol gan staff clinigol ac yn allanol gan fferyllydd annibynnol er mwyn monitro cydymffurfedd parhaus.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Gwelsom brosesau ar waith i helpu i sicrhau fod y staff yn yr ysbyty yn diogelu'r cleifion yn briodol. Roedd polisi diogelu cynhwysfawr ar waith ac yn gyfredol. Roedd siart lif ar gyfer uwchgyfeirio pryderon diogelu ar gael i'r holl staff.

Gwelsom fod digwyddiadau wedi bod yn destun ymchwiliadau mewnol a'u bod hefyd wedi'u cyfeirio'n briodol at asiantaethau diogelu allanol. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi datblygu perthynas well gyda'r heddlu ac arweinwyr diogelu o'r bwrdd iechyd lleol a'r awdurdod lleol. Mae'r sefydliadau'n cyfarfod yn fisol i wella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth i helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol a bod llai o ymweliadau diangen â'r ysbyty gan yr heddlu. Nodwyd hyn gennym fel arfer da.

Gwelsom dystiolaeth fod diogelu yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol fel eitem sefydlog ar yr agenda er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu a gwersi a ddysgwyd. Roedd cydymffurfedd staff yr ysbyty â hyfforddiant diogelu yn uchel, sef dros 80 y cant.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan yr ysbyty bolisiau ar waith i helpu i amddiffyn diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff.

Defnyddiwyd egwyddorion cymorth ymddygiad cadarnhaol fel prif ddull o isgyfeirio er mwyn rheoli ymddygiad heriol. Dywedwyd wrthym y byddai staff yn arsylwi cleifion yn amlach yn unol â'r polisi arsylwi diogel a chefnogol pe bai cleifion yn parhau i gyflwyno mwy o risgiau. Gwelsom fod cofnodion o arsylwadau a gynhaliwyd ar gleifion yn cael eu cwblhau'n briodol gan y staff nyrsio. Dywedwyd wrthym fod rhai arferion cyfyngedig ar waith yn yr ysbyty gan gynnwys cyfyngu ar fynediad i eitemau cyfyngedig, absenoldeb i'r gymuned ac i rai rhannau o dir yr ysbyty.

Gwelsom fod Asesiadau Tymor Byr o Risg a Thriniaeth (START) yn cael eu cwblhau gan staff nyrsio. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n ddyddiol gan y tîm amlddisgyblaethol a gwelsom drafodaethau'n cael eu cynnal mewn perthynas â phob claf ar newidiadau posibl i gynlluniau gofal, eitemau cyfyngedig, lefelau arsylwi a statws absenoldeb Adran 17.

Gwelsom fod unrhyw ddefnydd o ataliaeth wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion ac ar y system electronig gorfforaethol. Roedd hyn yn cynnwys manylion megis hyd yr ymyriad a'r math o ataliaeth a ddefnyddiwyd. Dywedwyd wrthym fod ôl-drafodaeth yn digwydd gyda staff yn dilyn digwyddiadau i adlewyrchu a nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Gwnaethom nodi bod digwyddiadau o ataliaeth yn cael eu crynhoi a'u trafod gan y tîm amlddisgyblaethol ym mhob cyfarfod llywodraethu clinigol misol.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw mewn ffeiliau papur ac yn electronig. Gwelsom fod cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd y system electronig 'myPath' wedi'i diogelu gan gyfrinair i atal mynediad heb awdurdod ac achosion o dorri cyfrinachedd.

Roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu'n gynhwysfawr. Fodd bynnag, canfuom fod adolygu cofnodion cleifion yn heriol heb fod yn gyfarwydd â'r systemau electronig neu â ble roedd rhai dogfennau wedi'u lleoli. Cofnodwyd rhywfaint o wybodaeth hefyd ar systemau papur ac electronig, a oedd yn ymddangos yn ddyblyg. Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu mewn ffordd symlach er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau bod aelodau newydd o staff yn gallu cael gafael ar ddogfennau'n gyflym wrth adolygu gofal a thriniaeth i gleifion. Mae rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion a chynlluniau gofal cleifion wedi'i nodi yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pum claf sy'n aros yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Canfuwyd bod yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer.

Roedd asesiadau galluedd meddyliol yn cael eu cynnal ar gleifion adeg eu derbyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i roi eu barn ar yr asesiad a oedd yn gadarnhaol. Rhoddir gwybodaeth i gleifion ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty ynglŷn â'u cyfnod cadw, eu hawliau cyfreithiol a manylion cyswllt eiriolwr annibynnol.

Roedd yr holl dystysgrifau cydsynio i driniaeth berthnasol yn cael eu storio ochr yn ochr â'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn ôl yr angen. Gwelsom y gofynnwyd am asesiadau'r Meddyg Ail Farn Penodedig pan oedd cleifion wedi gwrthod rhoi cydsyniad.

Roedd trefniadau da ar waith i gofnodi absenoldebau Adran 17 yn briodol. Gwelsom fod absenoldeb yn derbyn asesiad risg addas a bod y ffurflenni yn pennu amodau a chanlyniadau absenoldeb pob claf. Roedd cleifion wedi llofnodi eu ffurflen absenoldeb i ddangos eu bod yn cytuno â'r telerau ac roedd tystiolaeth bod cleifion wedi cael copi, neu wedi cael cynnig copi ohono.

Roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd tystiolaeth bod tîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn goruchwyllo'n dda i fonitro cydymffurfedd â chanllawiau cenedlaethol

ac i adolygu terfynau amser sydd i ddod i sicrhau bod cyfnodau cadw'n parhau i fod yn gyfreithlon.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am yr adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl y mae cleifion yn cael eu cadw oddi tani yn cael ei darparu i gleifion bob tri mis. Fodd bynnag, yn ystod ein hadolygiad, gwnaethom nodi nad oedd hawliau un claf wedi cael eu darllen iddo ers mis Mawrth 2022.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal

Roedd y cynlluniau gofal a adolygwyd gennym yn cael eu cynnal i safon dda. Roedd gan bob claf ei raglen ofal ei hun a oedd yn adlewyrchu ei anghenion a'i risgiau unigol. Roedd parthau Mesur y Gymraeg yn cael eu hystyried ac roedd amcanion yn canolbwyntio ar adsefydlu ac annibyniaeth.

Roedd asesiadau cyn-derbyn ac ar ôl derbyn yn cael eu cynnal a'u cofnodi yn y dogfennau. Roedd yn amlwg bod y cleifion wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal, ac roedd llais y claf yn cael ei adlewyrchu'n dda yn y dogfennau. Roedd tystiolaeth o gyfranogiad amlddisgyblaethol wrth ddatblygu ac adolygu'r cynlluniau gofal yn barhaus i sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau i adlewyrchu anghenion a risgiau cyfredol.

Gwelsom fod gan gleifion hefyd gynlluniau gofal argyfwng unigol ac arferion cyfyngol, a oedd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio mewn man ar wahân ar y gyriant a rennir. Dylai'r gwasanaeth ystyried a ellir ymgorffori'r dogfennau hyn ar myPath i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhan gyfoes o gofnodion cleifion.

Roedd tystiolaeth o gynlluniau rhyddhau o'r ysbyty ac ôl-ofal a gwnaethom nodi fod cleifion a chydlynwyr gofal wedi cael eu cynnwys yn y broses.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Adborth Staff

Gwahoddwyd y staff i lenwi holiaduron AGIC yn dilyn yr arolygiad er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o 13 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ar draws pob maes, ac roedd yr holl ymatebwyr (a roddodd farn) yn argymhell eu lleoliad iechyd meddwl fel lle i weithio, ac yn cytuno y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir i'w ffrindiau neu deulu. Mae rhai o ganlyniadau'r holiadur yn ymddangos drwy'r adroddiad.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, fod y staff yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol am eu rolau. Dywedodd pob aelod o staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod yr ysbyty'n annog gwaith tîm a'u bod yn cael eu cefnogi i nodi a datrys problemau. Cytunodd y staff hefyd eu bod yn gwybod pwy yw'r uwch-reolwyr, eu bod yn weladwy, a'u bod yn ymroddedig i ofal cleifion.

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith i ddarparu trosolwg o faterion clinigol a gweithredol. Roedd gweithgareddau archwilio a systemau a phrosesau monitro ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar gynnal safonau'n barhaus. Dangosodd agendâu ar gyfer cyfarfodydd llywodraethu clinigol ystod eang o eitemau sefydlog i helpu i sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar bob agwedd ar y gwasanaeth. Caiff arolygiaeth bellach o berfformiad yr ysbyty ei reoli'n gorfforaethol drwy dimau corfforaethol Cygnet Health Care.

Mae uwch-reolwyr yn Delfryn Lodge a Delfryn House yn dod at ei gilydd i fynychu cyfarfodydd gweithredol, megis y cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad roedd teimlad ymhlith y tîm arolygu bod Delfryn Lodge a Delfryn House yn gweithredu'n annibynnol. Yn unol â hyn, cynigiodd un aelod o staff a gwblhaodd holiadur y gwelliant canlynol i'r gwasanaeth:

“I'r ddau ysbyty ar y safle i weithio gyda'i gilydd fel nad oes rhaniad.”

Dylai'r gwasanaeth ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â staff i sicrhau ei fod yn cael ei lywodraethu fel un ysbyty yn hytrach na dwy ward ar wahân.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a chofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd adroddiadau digwyddiad rheolaidd yn cael eu llunio a'u hadolygu ar lefel yr ysbyty ac ar lefel gorfforaethol i helpu i nodi tueddiadau a phatrymau ymddygiad.

Dywedwyd wrthym fod cwynion, digwyddiadau a materion diogelu'n cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd llywodraethu clinigol a bod yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu â'r holl staff. Gwelsom hefyd fod tystiolaeth o hysbysu cleifion yn dilyn digwyddiadau lle'r oedd gwallau meddyginiaeth a oedd yn dangos dull agored a thryloyw o ymdrin â digwyddiadau.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i roi gwybod am arferion anniogel. Dywedodd mwyafrif y staff hefyd y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn eu lleoliad iechyd meddwl.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Roedd lefelau staffio yn briodol i gynnal diogelwch cleifion yn y wardiau ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o drafodaethau gyda chyfarwyddwr yr ysbyty y bu heriau diweddar mewn perthynas â nifer o swyddi gwag yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth sy'n gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a'r grŵp cleifion wedi'u defnyddio'n rheolaidd i gwmpasu unrhyw ddiffygion o ran nifer yr aelodau staff. Cawsom wybod hefyd am y mentrau recriwtio sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd i ddenu staff newydd.

Nid oedd ychydig o dan draean o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Nid oedd ychydig llai na chwarter y staff hefyd yn cytuno bod ganddynt ddigon o amser i roi'r gofal sydd ei angen arnynt i gleifion. Cynigiodd y staff y canlynol mewn perthynas â'r sefydliadau staffio:

“Cyflogi mwy o staff rheolaidd sydd wedi'u hyfforddi ym mhob agwedd ar ddarparu gofal.”

“Cael nyrs sy'n rhagnodi ar y safle.”

Gwnaethom nodi nad oedd presenoldeb gweithiwr cymdeithasol ar y tîm amlddisgyblaethol. Roeddem yn teimlo y byddai gweithiwr cymdeithasol yn darparu budd a phersbectif ychwanegol i drafodaethau'r tîm amlddisgyblaethol ynglŷn â chynlluniau gofal a thriniaeth i gleifion yn ogystal â chefnogi cleifion sy'n gweithio tuag at ryddhau o'r ysbyty.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddi gorfodol ar gyfer staff yn yr ysbyty a chanfod bod cyfraddau cwblhau yn uchel (89 y cant ar gyfer Delfryn Lodge, 92 y cant ar gyfer Delfryn House). Dywedodd y staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod hyfforddiant wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol a darparu profiad gwell i gleifion.

Gwelsom fod dros 80 y cant o holl staff yr ysbyty wedi derbyn eu harfarniad blynyddol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd polisiau recriwtio, dewis a phenodi staff ar waith a oedd yn amlinellu'r trefniadau i'w dilyn i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Cyn cyflogaeth, mae'n ofynnol i ddarparu staff ddarparu dau eirda proffesiynol a thystiolaeth o gymwysterau proffesiynol. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn cael eu cynnal, ac yna'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, i sicrhau bod staff yn addas i weithio yn yr ysbyty.

Mae staff parhaol newydd eu penodi yn cael cyfnod sefydlu o bythefnos os ydynt yn ychwanegol at y sefydliad staffio arferol yn yr ysbyty. Yn ystod y cyfnod sefydlu mae'n ofynnol i staff ddarllen polisiau'r cwmni a chwblhau hyfforddiant gorfodol. Cynigwyd y gwelliannau arfaethedig canlynol gan staff a gwblhaodd holiadur AGIC:

"I ddechreuwy'r newydd gael cyfnod sefydlu mwy cadarn ac addysgiadol cyn dechrau eu rôl ar y wardiau."

"Rhoi system 'gyfeillio' ar waith i ddechreuwy'r newydd gyda staff cymorth/nysio profiadol."

Dylai'r gwasanaeth adolygu ei raglen sefydlu yng ngoleuni'r sylwadau hyn er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi'r wybodaeth ofynnol a chymorth digonol i aelodau newydd o staff wrth dechrau eu rôl.

Roedd polisi rhyddid i lefaru (chwythu'r chwiban) wedi'i sefydlu pe bai staff yn dymuno codi unrhyw bryderon am faterion yn yr ysbyty. Roedd y staff yn gallu siarad â chyfarwyddwr yr ysbyty neu gysylltu â 'gwarcheidwad rhyddid i lefaru' yn gyfrinachol.

Roedd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod yr ysbyty'n cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a bod staff yn cael cynnig cymorth llawn mewn sefyllfaoedd heriol. Cytunodd yr holl staff hefyd eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt fel gweithwyr.

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Delfryn House a Delfryn Lodge

Dyddiad yr arolygiad: 4-6 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon diffyg cydymffurfio dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Delfryn House a Delfryn Lodge

Dyddiad yr arolygiad: 4-6 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodir yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid cynnal gwiriadau ac arsylwadau iechyd corfforol yn rheolaidd a'u cofnodi yn y ffeiliau iechyd corfforol ar gyfer cleifion.	Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae'r meddyg arbenigol wedi sefydlu ffolder iechyd corfforol ar gyfer pob claf gydag amserlenni ar gyfer monitro iechyd corfforol (yn dibynnu ar anghenion pob unigolyn) a adolygir o leiaf cyn pob rownd ward.	Meddyg arbenigol, RC a Nyrs Enwebedig	Wedi'i gyflawni
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ystyried gosod paneli arsylwi ar bob drws ystafell wely yn yr ysbyty er mwyn lleihau'r effaith ar gleifion gyda'r nos.	Urddas a pharch	Mae trafodaethau ar waith ar hyn o bryd ynglŷn ag ystyried gosod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely yn Delfryn House. Ar hyn o bryd mae yna wahanol safbwyntiau gan	Rheolwr Cyfleusterau Rhanbarthol, Defnyddwyr Gwasanaeth a Rheolwr Clinigol.	Tri mis

		gynnwys pwysigrwydd staff yn mynd i mewn i ystafelloedd gwely i sicrhau eu bod yn gwirio am arwyddion o fywyd (yn dibynnu ar risgiau presennol yr unigolyn). Bydd y rheolwr cofrestredig yn diweddarau AGIC unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud.		
Rhaid sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn Delfryn Lodge.	Gwybodaeth a chydsyniad cleifion	Mae gwybodaeth hybu iechyd wedi'i gosod mewn manau allweddol ar y ward gan gynnwys hysbysfyrddau, yr ystafell driniaeth, yr ardal fwyta ac ystafelloedd gwely defnyddwyr gwasanaeth unigol ar gyfer y rhai a oedd yn dymuno cael hyn.	Uwch-nyrsys a Rheolwr Clinigol	Wedi'i gyflawni
Mae angen diweddarau manylion cyswllt AGIC ar rai posteri ar draws yr ysbyty.	Gwybodaeth a chydsyniad cleifion	Cwblhawyd adolygiad o'r holl bosteri cyfredol ac mae'r rhai yr oedd angen eu diweddarau wedi'u cwblhau.	Rheolwr Ysbyty a staff Gweinyddol	Wedi'i gyflawni
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ystyried gosod bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' i gleifion yn	Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth	Mae hyn wedi cael ei drafod gyda'r adran Therapi Galwedigaethol ac mae'r bwrdd 'Dywedoch chi, fe wnaethom ni'	Adran Therapi Galwedigaethol	Wedi'i gyflawni

Delfryn Lodge er mwyn bod yn gyson â Delfryn House.		wedi'i ailadrodd ar draws pob ward.		
Mae angen atgyweirio'r cownter yn ystafell fwytta Delfryn Lodge.	Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae hyn wedi'i drafod gyda'r Rheolwr Cyfleusterau Rhanbarthol ac mae wedi gofyn i'r arweinydd Ystadau atgyweirio'r ardal a nodwyd.	Rheolwr Cyfleusterau Rhanbarthol	Wedi'i gyflawni
Mae angen gwirio'r holl oleuadau ar y to yn yr ysbyty i sicrhau eu bod yn gweithio, a'u glanhau i gael gwared ar y baw a'r pryfed sy'n cronni.	Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Cafodd yr holl oleuadau eu hadolygu a'u newid yn ystod yr arolygiad gan fod hyn wedi'i amlygu. Mae'r cronniad o bryfed a baw wedi'i dynnu ar ôl yr arolygiad. Mae'r arweinydd ystadau bellach wedi gosod y cam hwn yn ei archwiliad ar gyfer yr ysbyty er mwyn lleihau'r risg y bydd hyn yn digwydd eto.	Arweinydd Ystadau	Wedi'i gyflawni
Rhaid cwblhau'r rhestr wirio tymheredd ystafell yn ôl yr angen yn yr ystafell driniaeth yn Delfryn Lodge.	Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae hyn wedi'i drafod gyda'r Uwch-weithwyr Cymorth i sicrhau bod hwn yn cael ei ddyrannu i unigolyn i'w gwblhau ar bob shift dydd a nos.	Uwch-weithwyr Cymorth	Wedi'i gyflawni

<p>Rhaid gosod cadeiriau newydd yn y manau cleifion sydd â defnydd wedi treulio.</p>	<p>Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Roedd cadeiriau eisoes wedi'u harchebu ac roeddynt yn aros iddynt gyrraedd yn ystod yr arolygiad. Mae'r rhain bellach wedi cyrraedd ac wedi cael eu hamnewid yn lle'r cadeiriau a nodwyd fel rhai sydd â defnydd wedi treulio.</p>	<p>Rheolwr Cyfleusterau Rhanbarthol ac Arweinydd Ystadau</p>	<p>Wedi'i gyflawni</p>
<p>Rhaid arddangos y dewisiadau bwydlen ar gyfer cleifion yn Delfryn House.</p>	<p>Maeth</p>	<p>Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr cyfleusterau ac mae wedi'i roi yn ei le.</p>	<p>Rheolwr Cyfleusterau</p>	<p>Wedi'i gyflawni</p>
<p>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ystyried p'un a yw'n casglu gwybodaeth yn y ffordd symlaf i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn gallu cael mynediad at ddogfennaeth yn gyflym wrth adolygu gofal a thriniaeth i gleifion.</p>	<p>Rheoli cofnodion</p>	<p><u>Er mwyn lleihau dyblygu gwybodaeth mae proses ciplun yn cael ei rhoi ar waith a fydd yn cynnig gwybodaeth allweddol ac yn cyfeirio staff at ble y gellir cael gwybodaeth briodol bellach mewn ymdrech i atal yr angen i staff adolygu ffeiliau a dogfennaeth luosog.</u></p> <p>Hefyd, mae unrhyw wybodaeth a gofnodir yn y ffurflen drosglwyddo, cofnodion clinigol a</p>	<p>Nyrsys allweddol a tîm amlddisgyblaethol</p>	<p>Tri mis</p> <p>Wedi'i gyflawni</p>

		digwyddiad yn symlach ac yn gyson.	Nyrsys, gweithwyr cymorth a staff tîm amlddisgyblaethol	
Rhaid i hawliau cleifion a gedwir gael eu darllen iddynt fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf lechyd Meddwl.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Mae hawliau cleifion yn cael eu hadolygu'n ddyddiol yn ystod cyfarfodydd y bore i sicrhau nad oes unrhyw un yn weddill.	Gweinyddwyr y Ddeddf lechyd Meddwl, Nyrsys, Tîm Amlddisgyblaethol	Wedi'i gyflawni
Rhaid i'r gwasanaeth ymgysylltu â staff i sicrhau'n well nad yw'r wardiau'n cael eu hystyried fel endidau ar wahân, ond yn hytrach yn gweithredu fel un ysbyty.	Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Mae pob cyfarfod allweddol sy'n cynnwys Llywodraethu Clinigol, Gwella Ansawdd, Cyfarfod Llawn o'r Staff, Rheoli Meddyginiaeth a Phennaeth Adrannau yn gyfarfodydd cydweithredol o'r holl wasanaethau (Delfryn House a Delfryn Lodge). Nid oes unrhyw gyfarfodydd ar wahân. <u>Rydym wedi dechrau gweithdy meithrin tîm gwella ansawdd sy'n cynnwys staff o Delfryn House a Delfryn Lodge mewn ymdrech i sicrhau nad yw'r wardiau'n ystyried eu hunain yn endidau ar wahân. Yn ogystal ag i hyrwyddo gweithio traws-safle, rhannu gwybodaeth (gan gynnwys</u>	Rheolwr Ysbyty Gweithdai - Rheolwr Ysbyty, Pennaeth Seicoleg a Rheolwyr Clinigol	Wedi'i gyflawni Tri mis i gwblhau'r holl sesiynau adeiladu tîm.

		<p><u>arferion gorau) a dull tîm cryfach.</u></p> <p>Mae'r adran seicoleg wedi croesawu'r ffordd newydd o weithio trwy gael yr holl staff seicoleg i weithio ar draws Delfryn House a Delfryn Lodge.</p>	Rheolwr Ysbyty, Pennaeth Seicoleg	Wedi'i gyflawni
<p>Rhaid parhau gyda'r ymdrechion i recriwtio mwy o staff parhaol er mwyn lleihau'r teimlad ymhlith rhai staff nad oes ganddyn nhw ddigon o amser i roi'r gofal sydd ei angen arnynt i gleifion.</p>	<p>Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol</p>	<p>Rydym wedi recriwtio'n llawn i bob swydd ac yn aros am ddyddiadau cychwyn trwy'r broses recriwtio. Cynhelir cyfarfod recriwtio wythnosol a ddefnyddir i reoli'r broses recriwtio yn rhagweithiol.</p> <p>Rydym hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gyflogi gweithiwr cymdeithasol a nyrs sy'n rhagnodi yn 2023.</p> <p>Er nad oedd yr holl swyddi ar wardiau wedi'u llenwi, roedd y rotâu yn dangos bod datganiad o ddiben yr Ysbytai yn cael eu bodloni bob amser, gyda staff rheolaidd ac yn uwch na'r lefelau staffio diogel gofynnol.</p>	Rheolwr Ysbyty, Uwchweinyddwr a Rheolwyr Clinigol	Wedi'i gyflawni

Dylai'r gwasanaeth adolygu ei raglen sefydlu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn cael y wybodaeth ofynnol a chymorth digonol wrth ddechrau yn eu rôl.	Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	Mae yna lyfryn sefydlu cyfredol a gefnogir gan y broses gyfeillio.	Staff Gweinyddu Hyfforddiant, Rheolwyr Clinigol, Rheolwr Ysbyty	Wedi'i gyflawni
		Yn ystod pythefnos cyntaf y cyfnod sefydlu, defnyddir 50% o'r amser a neilltuwyd iddynt ar gyfer cwblhau hyfforddiant gorfodol ac arbenigol.		Wedi'i gyflawni
		Cynhelir adolygiad hyfforddiant blynyddol sy'n edrych ar y broses sefydlu ac anghenion yr Ysbyty.		Wedi'i gyflawni

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): John Bromfield

Swydd: Rheolwr Ysbyty

Dyddiad: 29 Awst 2022